# Crynodeb o'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd 2026-2030

## 10 Gorffennaf 2025

## Cyflwyniad

Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chyflogau Aelodau a chymorth busnes a staffio Aelodau a fydd yn berthnasol o 7 Mai 2026, h.y. o ddechrau'r Senedd nesaf.

Mae'r Bwrdd yn cyhoeddi gwybodaeth yn y ffurf gryno hon ar hyn o bryd i roi rhybudd cynnar i ymgeiswyr, Aelodau, staff cymorth, undebau, pleidiau a'r cyhoedd am y cyflogau a'r gefnogaeth a ddarperir i'r Aelodau yn y Senedd nesaf.

Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu hymgorffori a'u cyhoeddi mewn Penderfyniad drafft llawn yn ddiweddarach yn yr hydref; bydd y Penderfyniad diwygiedig hefyd yn ymgorffori newidiadau drafftio a ddatblygwyd trwy adolygiad symleiddio'r Bwrdd i sicrhau bod y Penderfyniad mor glir ac mor hawdd i'w ddehongli a'i weinyddu â phosibl.

Mae'r wybodaeth wedi'i grwpio'n adrannau (sy'n adlewyrchu penodau'r Penderfyniad cyfredol) ac mae'n nodi lle mae'r Bwrdd wedi gwneud ei benderfyniadau terfynol[1] ar 10 Gorffennaf 2025 a lle mae'n bwriadu gwneud penderfyniadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn dilyn canlyniad gwaith perthnasol a allai effeithio ar y Penderfyniad, er enghraifft adolygiad y **Pwyllgor Busnes** o drefn busnes y Senedd a'r adolygiad o'r **Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd**.

Dyma grynodeb o'r cyflogau a'r gefnogaeth a fydd ar gael i'r Aelodau yn y Senedd nesaf; ni fwriedir iddo fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Penderfyniad a fydd yn gymwys. Bydd angen i unrhyw un sy'n dymuno gweld, yn llawn, y rheolau a fydd yn

---

[1]Yn unol ag adran 12(3) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, mae'r penderfyniadau a wnaed ar 10 Gorffennaf 2025 wedi cael eu hymgorffori mewn atodiad i'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer 2025-26 (gan nodi y byddant yn dod i rym o 7 Mai 2026).

berthnasol yn y Senedd nesaf ddarllen y Penderfyniad terfynol ar gyfer y Seithfed Senedd pan fydd yn cael ei gyhoeddi.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'i gynigion sydd ar gael ar-lein **yma**.

## Egwyddorion cymorth ariannol

Bydd rhaid i Aelodau gadw at yr egwyddorion canlynol wrth wneud cais am unrhyw gostau staff a busnes:

- Dim ond am wariant y bu'n rhaid ei ysgwyddo er mwyn i ddyletswyddau'r Aelod gael eu cyflawni y caniateir i gais gael ei wneud.
- Rhaid peidio â gwneud cais am wariant sy'n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol plaid.
- Ni ddylai ceisiadau arwain at fudd ariannol personol amhriodol, nac arwain at ganfyddiad o fudd ariannol personol amhriodol, uniongyrchol neu anuniongyrchol, iddynt eu hunain nac i neb arall, gan gynnwys er lles mudiad gwleidyddol.
- Mae Aelodau'n gwbl gyfrifol am eu holl wariant, gwneud ceisiadau, cadw cofnodion ac am reoli eu cyllidebau a'u staff cymorth.
- Rhaid i Aelodau ymrwymo i egwyddorion didwylledd a thryloywder.
- Rhaid i'r Aelodau geisio sicrhau bod unrhyw wariant a ysgwyddir yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr, mai dyna'r opsiwn mwyaf cynaliadwy a rhesymol sydd ar gael, ac nad yw'n cael effaith negyddol ar enw da y Senedd neu ei Haelodau.
- Rhaid i'r Aelodau beidio â gwneud cais o dan y Penderfyniad hwn am unrhyw beth y mae gan Aelodau yr hawl i'w geisio o unrhyw ffynhonnell arall.
- Bydd yr holl hawliadau yn parhau i gael eu cyhoeddi ar **wefan Comisiwn y Senedd**.

## Cyflogau a phensiynau'r Aelodau

- Y cyflog ar gyfer Aelodau bydd £76,380. Bydd hyn yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl ffigur ASHE Cymru a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y mis Tachwedd blaenorol[2].
- Bydd gan Aelodau sy'n dal unrhyw un o'r swyddi ychwanegol canlynol hawl i gyflog blynyddol ychwanegol fel y nodir isod (hefyd wedi'i addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn ffigur ASHE Cymru a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y mis Tachwedd blaenorol).

| Deiliad Swydd Ychwanegol | Cyflog ychwanegol | Cyfanswm cyflog |
|---|---|---|
| Y Prif Weinidog | £90,701 | £167,081 |
| Un o Weinidogion Cymru | £42,963 | £119,343 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £42,963 | £119,343 |
| Dirprwy Weinidog | £25,063 | £101,443 |
| Y Llywydd | £48,930 | £125,310 |
| Dirprwy Lywydd | £25,063 | £101,443 |
| Comisiynydd y Senedd | £15,514 | £91,894 |
| Cadeirydd Pwyllgor | £15,514 | £91,894 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £15,514 | £91,894 |
| Arweinydd grŵp nad yw yn y Llywodraeth | £15,514 + £1,194 yr Aelod hyd at uchafswm o £42,963 | Hyd at uchafswm o £119,343 |

- Bydd Aelod sy'n gwneud mwy nag un o'r swyddi ychwanegol (gan gynnwys dros dro) yn cael cyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer un yn unig o'r swyddi ychwanegol hynny, sef yr uchaf ei thâl o blith y swyddi ychwanegol hynny.
- Bydd yr Aelodau yn cael pensiwn fel y nodir yng **Nghynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd**.

[2]Bydd cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn cael eu haddasu gan y newid yn ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrif gros blynyddol cyflogeion amser llawn yng Nghymru) rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigur hwn fel arfer yn cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn flynyddol ym mis Tachwedd.

## Cymorth ychwanegol

- **Cymorth o ran anableddau** - Bydd Aelod yn parhau i allu hawlio ad-daliad am gostau ychwanegol yr eir iddynt oherwydd anabledd (hynny yw, cyflwr iechyd neu amhariad Aelod neu staff Aelod, neu i helpu ymgysylltiad gyda phobl anabl).
- **Absenoldeb rhiant** - Bydd gan Aelodau hawl o hyd i'w cyflog llawn (gan gynnwys unrhyw gyflog am swydd ychwanegol) yn ystod cyfnodau o absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu. Yn ogystal â hynny, caiff Aelod barhau i allu hawlio cyllid i ddarparu cymorth staff ychwanegol neu adnodd arall hyd at gyfanswm o 12 mis, er mwyn caniatáu parhad wrth gyflawni dyletswyddau'r Aelod.
- **Gofal plant a chymorth gofalu arall**
    - Caiff Aelod barhau i wneud hawliad am hyd at £350 y mis fesul plentyn (o dan 16 oed) neu oedolyn dibynnol, hyd at uchafswm o 3 dibynnydd, ar gyfer costau gofalu (yn ystod penwythnosau neu yn ystod yr wythnos y tu hwnt i oriau gwaith arferol (09.00-18.00) er mwyn i Aelod barhau i gyflawni ei ddyletswyddau.
    - Bydd Aelod ardal allanol (gweler isod) sy'n rhentu eiddo ac a all ddangos fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda'r Aelod yn ardal Caerdydd hefyd yn gallu hawlio hyd at £3,870 y flwyddyn ar gyfer dibynnydd cyntaf yr Aelod a hyd at £1,290 y flwyddyn fesul dibynnydd ychwanegol (hyd at uchafswm o 2 ddibynnydd).

## Teithio

Gall Aelodau hawlio ar gyfer

- costau teithio yr eir iddynt rhwng Caerdydd a'u prif gartref, gan gynnwys cost teithiau dwyffordd mewn car, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ddull rhesymol arall.
- costau teithio yr eir iddynt wrth gyflawni dyletswyddau yn eu hetholaeth neu ranbarth, gan gynnwys teithio i ac o gyfarfodydd, digwyddiadau ac ymrwymiadau.
- costau teithio ar gyfer aelodau staff
- costau teithio ar gyfer partneriaid neu ddibynyddion (hyd at 12 taith sengl fesul dibynnydd, hyd at 3 dibynnydd) sy'n teithio rhwng yr etholaeth a Chaerdydd.
- teithio rhyngwladol mewn cysylltiad â'u dyletswyddau yn y Senedd, yn dilyn cyflwyno achos busnes i Gomisiwn y Senedd

## Llety dros nos

- Bydd dwy ardal yn unig o ran cymhwysedd ar gyfer llety dros nos ym Mhenderfyniad y Seithfed Senedd: ardal Fewnol ac ardal Allanol.
- Mae Aelodau y mae eu prif gartrefi wedi'u lleoli yn yr etholaethau a ganlyn yn cael eu hystyried fel yn yr ardal fewnol neu'r ardal allanol, a byddant yn gymwys ar gyfer y costau a ganlyn:

| | **Aelodau sydd â phrif breswylfa yn yr etholaethau hyn:** | **Costau a therfynau cymwys** |
|---|---|---|
| Ardal Allanol | - Bangor Conwy Môn<br>- Clwyd<br>- Fflint Wrecsam<br>- Gwynedd Maldwyn<br>- Ceredigion Penfro<br>- Sir Gaerfyrddin<br>- Gŵyr Abertawe<br>- Brycheiniog Tawe Nedd | Y costau rhentu uchaf fydd hyd at £12,900 y flwyddyn, wedi'i uwchraddio yn ôl ffigur mis Hydref 2025 ar gyfer Mynegai Prisiau Rhenti Tai Preifat y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar brisiau rhentu preifat, a chostau cysylltiedig ar ben hynny, gan gynnwys y dreth gyngor a chyfleustodau.<br><br>Costau llety ychwanegol ar gyfer Aelodau sydd â dibynyddion sydd fel arfer yn preswylio yn Ardal Caerdydd (gweler uchod). |
| Ardal Fewnol | - Afan Ogwr Rhondda<br>- Pontypridd Cynon Merthyr<br>- Blaenau Gwent Caerffili Rhymni<br>- Sir Fynwy Torfaen<br>- Casnewydd Islwyn<br>- Caerdydd Penarth<br>- Caerdydd Ffynnon Taf | *Mae'r Bwrdd yn bwriadu gosod cyllideb ar gyfer llety dros nos hyd at uchafswm o £702 y flwyddyn i'w defnyddio yn Ardal Caerdydd ar gyfer 2026-27. Bydd y Bwrdd yn gwneud ei benderfyniad terfynol cyn dechrau tymor y Seithfed Senedd, yn dilyn adolygiad o'r cynllun peilot a gynhelir yn 2025-26.* |

| | | |
|---|---|---|
| | - Pen-y-bont Bro Morgannwg | |

- Bydd Aelodau'n gallu hawlio am lety dros nos y tu allan i ardal Caerdydd, yr uchafswm presennol yw £117 y noson (a £210 yn Llundain) ar gyfer gwestai neu lety â gwasanaeth.
- Caiff Aelodau hawlio, yn ogystal â’r uchod, am fesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer eu prif gartref (yn dilyn asesiad gan Dîm Diogelwch Comisiwn y Senedd).

## Costau Swyddfeydd Etholaethol ac Ymgysylltu

- Bydd Aelodau'n cael hyblygrwydd i benderfynu a oes angen swyddfa arnynt ac os felly, pa fath ac at ba ddiben. Fodd bynnag, bydd disgwyl i unrhyw swyddfeydd fod yn addas i'r diben ac yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol perthnasol (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010). Fodd bynnag, ni fydd gan yr Aelodau hawl i wneud cais i ddefnyddio’u cartref fel swyddfa.
- Bydd yr holl Aelodau (gan gynnwys Aelodau sy'n dychwelyd) sy'n sefydlu swyddfa newydd yn gallu hawlio 'costau cychwyn swyddfa' o hyd at £6,500; bydd Aelodau sy'n dychwelyd sy'n aros yn eu swyddfeydd presennol yn gallu hawlio hyd at £2,500 o gostau 'adnewyddu swyddfa'.
- Bydd pob Aelod yn gallu hawlio costau swyddfa etholaethol ac ymgysylltu o hyd at £27,430 (wedi'u huwchraddio gan CPI cyn 2026-27) ar gyfer costau fel rhent (ond nid morgais), offer, deunydd ysgrifennu, arbenigedd ymchwil allanol ac ati.
- Ni chaiff Aelodau hawlio ar gyfer costau sy’n codi o ddefnyddio eu cartref fel swyddfa etholaeth, ac eithrio y darperir ar gyfer hyn yn y Penderfyniad.
- Caiff yr Aelodau drosglwyddo hyd at 50% o'u cyllideb swyddfa a chysylltu ag etholwyr i'w cyllideb staffio.
- Caiff Aelodau hawlio, yn ogystal â’r uchod, am fesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer eu swyddfa yn yr etholaeth (yn dilyn asesiad gan Dîm Diogelwch Comisiwn y Senedd).

## Cymorth staffio’r Aelodau

- Bydd hawl gan Aelodau i hawlio hyd at £141,993 ar gyfer cyflogau a chostau eraill cyflogi staff i gefnogi Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd hyn yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl yr ASHE a gyhoeddir yn y mis Tachwedd blaenorol.

- Bydd Aelodau yn gallu cyflogi staff ar draws **4 Teulu Swyddi** (gan gynnwys rolau hybrid ar draws teuluoedd) ac unrhyw gyfuniad o fandiau cyflog (fel y nodir isod).
    - Cyfathrebu
    - Polisi ac ymchwil
    - Gwaith achos
    - Rheoli busnes a gweinyddiaeth
- Mae'r cyflogau sy'n daladwy wedi'u nodi yn y tabl 'Staff cymorth a gyflogir gan Aelodau neu Grwpiau' isod.
- Bydd unrhyw gyfraniadau perthynol y cyflogwr at Yswiriant Gwladol neu gyfraniadau pensiwn yn cael eu talu trwy'r Penderfyniad (a heb eu didynnu o'r terfyn uchod).
- Bydd Aelodau yn gallu trosglwyddo o'u cyllideb staffio i'w cyllideb swyddfa etholaethol sy'n cyfateb i 50% o gyllideb eu swyddfa etholaethol.
- Gweler isod ar gyfer tâl a graddfeydd cyflog a materion eraill sy'n ymwneud â staff cymorth sy'n cael eu cyflogi gan Aelodau neu Arweinwyr Grwpiau.

## Cymorth i Grwpiau'r Senedd

- Darperir Cymorth i Grwpiau'r Senedd i Grwpiau, fel y'u diffinnir yn Rheolau Sefydlog y Senedd, er mwyn cynorthwyo'r Aelodau hynny sy'n perthyn i'r Grŵp i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Senedd.
- Mae Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn rhoi adnoddau i Grwpiau ddarparu gweinyddiaeth a chydgysylltu canolog, cymorth ar gyfer gwaith craffu, ymchwil a datblygu polisïau sy'n ymwneud â dyletswyddau'r Aelodau, cymorth cyfathrebu, cymorth bugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â staffio, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, yn ogystal â gweithredu swyddfa grŵp.
- Bydd Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn cael ei ddosbarthu drwy gyfradd fesul Aelod o £60,000 o ddechrau'r Seithfed Senedd, wedi'i lleihau yn dibynnu ar faint Grŵp ar y sail a ganlyn:

| Haen | Cyfradd Fesul Aelod Grŵp Anllywodraethol | Cyfradd Fesul Aelod Grwpiau a gynrychiolir yn y Llywodraeth (gostyngiad o 75% o gymharu â grwpiau anllywodraethol) |
|---|---|---|
| **5 Aelod cyntaf** | 100% | 25% |
| **6 - 39 o Aelodau** | 50% | 12.5% |
| **40+ o Aelodau** | 25% | 6.25% |

- Bydd y gyfradd Fesul Aelod yn cael ei addasu o 1 Ebrill 2027 ymlaen a phob blwyddyn wedi hynny yn ôl y newid i ffigur ASHE Cymru a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y mis Tachwedd blaenorol.
- Bydd Grŵp a gynrychiolir yn y Llywodraeth yn cael cyfradd Fesul Aelod is fel uchod, yn amodol ar gyfradd waelodol yn seiliedig ar gronni'r tri pwynt cyflog uchaf yn y tri band uchaf sy'n gyflogadwy o fewn Swyddfa Grŵp (Pennaeth Staff, Uwch-gynghorydd a Band 1).

## Staff cymorth a gyflogir gan Aelodau neu Arweinwyr Grwpiau

- Mae graddfeydd cyflog staff cymorth fel a ganlyn:

| Lefel | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 |
|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth Staff*** | £48,987 | £53,652 | £58,317 | £62,982 |
| **Uwch-gynghorydd** | £41,055 | £44,965 | £48,874 | £52,784 |
| **Band 1** | £37,583 | £41,163 | £44,743 | £48,322 |
| **Band 2** | £31,802 | £34,831 | £37,859 | £40,887 |
| **Band 3** | £25,211 | £28,812 | £32,414 | Amherthnasol |

* Bydd cyflog Pennaeth Staff dim ond yn daladwy i rôl Pennaeth Staff a allai gael ei gyflogi gan Arweinydd Grŵp mewn Grŵp Senedd.

- Bydd y cyflogau hyn yn cael eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl y ffigur ASHE a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y mis Tachwedd blaenorol.
- Darperir diogelwch cyflog am ddwy flynedd i unrhyw aelod o staff Band 3 a oedd ar Fand 5 o'r band cyflog gwreiddiol ar ddiwedd y Chweched Senedd ac sy'n parhau i gael ei gyflogi gan yr un Aelod.
- Bydd staff cymorth yn cael yswiriant bywyd, pensiynau, gwyliau blynyddol a gwyliau braint ac amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus (fel y nodir ym Mhennod 7 o'r **Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2025-26**).
- Ni fydd lwfans gweithio gartref yn cael ei dalu mwyach (bydd Adrannau 7.9B ac 8.5A o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2025-26 yn cael eu dileu).

- Bydd taliadau dileu swyddi i staff cymorth Aelodau a staff grwpiau yn parhau (adrannau 7.13 ac 8.9 o'r **Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau 2025-26**).

## Aelodau sy’n Gadael eu Swyddi

- **Bydd gan Aelod sy'n sefyll i'w ethol fel ymgeisydd yn 2030[3] ond nad yw’n cael ei ail-ethol hawl i wneud cais am:**
    - **Grant ymaddasu** o gyflog mis calendr am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblhawyd hyd at uchafswm o chwe mis o gyflog. Bydd Aelodau a oedd â swydd ychwanegol yn ystod cyfnod eu gwasanaeth yn gymwys hefyd i gael grant ymaddasu ychwanegol sy'n gyfwerth â swm y cyflog a dalwyd yn ystod eu tri mis olaf yn y swydd honno.
    - **Taliad dirwyn i ben** sy'n cyfateb i 3 mis o gyflog.
    - **Lwfans dirwyn i ben** i dalu am gostau mewn perthynas â rhwymedigaethau dan gontract ‘dirwyn i ben’ costau staffio ac ati
- **Bydd gan Aelod sy'n ymddiswyddo ar ddiwedd y Seithfed Senedd hawl i wneud cais am:**
    - **Taliad dirwyn i ben** sy'n cyfateb i 2 fis o gyflog.
    - **Lwfans dirwyn i ben** i dalu am gostau mewn perthynas â rhwymedigaethau dan gontract ‘dirwyn i ben’ costau staffio ac ati.
- Bydd **Grant Ymddeol oherwydd Salwch** yn cael ei dalu i unrhyw Aelod y mae ei iechyd yn ei rwystro rhag parhau i fod yn Aelod o’r Senedd.

[3] Neu pryd bynnag y bydd yr etholiad ar gyfer yr Wythfed Senedd yn digwydd.